# Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru (WGSSS)
# Canllawiau Cyllido Lleoliadau

## Trosolwg

Mae eich lleoliad yn rhan annatod o'ch hyfforddiant doethurol ac fe'i cefnogir trwy eich gwobr efrydiaeth Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru. Yn ystod y lleoliad, byddwch yn parhau i fod wedi'ch cofrestru fel myfyriwr yn eich prifysgol ac yn parhau i dderbyn eich ariantal.

Gan nad ydych yn cael eich cyflogi gan y sefydliad lletyol, ni allwch dderbyn taliadau uniongyrchol megis cyflog.

Cynigir lleoliadau yn y cnawd, hybrid ac o bell. Os ydych yn derbyn lleoliad i weithio yn y cnawd, rydym yn argymell eich bod yn gweithio i sefydliad sydd o fewn pellter teithio o'ch cartref. Disgwylir y bydd y teithio'n digwydd rhwng cyfeiriad lle mae myfyriwr fel arfer yn byw yn ystod ei PhD (yn agos at le mae'r ymchwil doethurol wedi'i chofrestru), a safle'r lleoliad.

### Cyfraniadau'r Sefydliad Lletyol

Disgwylir i sefydliadau lletyol gyfrannu at unrhyw gostau ychwanegol, megis teithio, cynhaliaeth, neu offer arbenigol. Mewn amgylchiadau eithriadol lle nad yw cyfraniad ariannol yn bosibl, gellir ystyried cefnogaeth ar ffurf nwyddau.

### Hawlio costau ychwanegol

Os na all eich sefydliad lletyol dalu'r costau ychwanegol hyn, neu os all eich sefydliad lletyol ddarparu cefnogaeth rannol yn unig, gallwch ofyn am gefnogaeth ariannol i dalu am gostau teithio a llety rhesymol gan Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru. Cytunir ar y gyllideb yn ôl anghenion unigol y myfyriwr.

Rhaid i'r hawliadau hyn fod yn hanfodol er mwyn i'r lleoliad fynd rhagddo - er enghraifft os nad yw gweithio o bell yn ymarferol neu os oes angen teithio'n rheolaidd at ddibenion busnes.

### Pa dreuliau allaf eu hawlio?

Gallwch hawlio treuliau eithriadol, hanfodol, sy'n ofynnol ar gyfer y lleoliad, megis:

- Teithio yn ôl ac ymlaen i'r lleoliad.
- Costau llety (os oes angen)

**Treuliau na ellir eu hawlio:**

- Costau cynhaliaeth (mae'r rhain yn cael eu talu gan eich ariantal)
- Teithiau y byddech fel arfer yn eu gwneud, megis eich taith arferol i'ch prifysgol gartref.

**Pryd ydw i'n gofyn am gefnogaeth ariannol?**

Pan fydd eich lleoliad wedi'i gadarnhau a'ch bod yn cyflwyno eich ffurflen cymeradwyo cais am leoliad i Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru, rhaid i chi gynnwys manylion llawn unrhyw gefnogaeth ariannol yr hoffech ei hawlio, gan ddefnyddio'r templed ffeil gostio a'i atodi gyda'r ffurflen cais am leoliad cyn ei gyflwyno i'w adolygu. Ar ôl cymeradwyo cefnogaeth ariannol, ni chaniateir ysgwyddo costau ychwanegol pellach. Os bydd gofyniad eithriadol i wyro oddi wrth y gefnogaeth y cytunwyd arni, dylid ymgynghori ag Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru. Rhaid i'r holl gostau fod wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw gan Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru a chael eu cefnogi gan gyfiawnhad clir.

**Faint allaf ei hawlio?**

Gellir hawlio hyd at uchafswm o £1000 at ddibenion treuliau ar gyfer gweithgareddau lleoli.

**A allaf hawlio mwy na'r trothwy?**

Na, ni all Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru gynnig cefnogaeth ariannol dros £1,000. Mewn achosion o'r fath, dylech ddewis yr opsiynau teithio mwyaf cost effeithiol a sicrhau bod costau llety yn briodol ar gyfer y lleoliad, a sicrhau bod y llety wedi'i gostio'n briodol ar gyfer y lleoliad ac yn addas ar gyfer meddiannaeth un person. Ni fydd disgwyl i chi ariannu unrhyw weithgaredd lleoli eich hun.

**Sut ydw i'n hawlio fy nhreuliau?**

- Dilynwch broses gyllid eich prifysgol/adran/ysgol gartref ar gyfer archebu teithio a llety. Eich cyfrifoldeb chi yw dilyn rheolau caffael eich prifysgol wrth archebu a thalu am deithio a llety.
- Dylech godi treuliau i'ch cyfrif RTSG a'u marcio'n glir fel "Costau Lleoliad Ymchwil ar Waith".
- Gellir gwneud hawliadau ymlaen llaw, yn ystod, neu ar ddiwedd y lleoliad.

- Rhaid i bob hawliad gydymffurfio â pholisi teithio a threuliau eich prifysgol gartref.
- Ar ddiwedd eich lleoliad, bydd eich prifysgol gartref yn cyflwyno dadansoddiad o'r treuliau a godwyd i Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru. Bydd eich RTSG yn cael ei ad-dalu hyd at swm yr hawliad a gymeradwywyd ymlaen llaw gan Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru.

### Pa ddogfennau sydd eu hangen arnaf i hawlio treuliau?

- Dyfynbrisiau ar gyfer teithio a llety (e.e., trwy ddarparwr teithio eich prifysgol e.e. mae Prifysgol Caerdydd yn defnyddio Clarity, mae Prifysgol Bangor yn defnyddio Diversity Travel).
- Derbynebau neu brawf o wariant ar gyfer yr holl dreuliau a hawlir.

### A allaf ymgymryd â lleoliad dramor?

Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yn mynnu bod lleoliadau fel arfer wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, gellir ystyried lleoliad dramor os gallwch ddangos ei fod yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau nad ydynt ar gael yn y Deyrnas Unedig. Rhaid i Gyfarwyddwr Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru adolygu a chymeradwyo unrhyw leoliad dramor.

Noder na all Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru ddarparu cefnogaeth ariannol ychwanegol ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Bydd angen i chi gynllunio sut y bydd costau megis teithio, llety a fisâu yn cael eu talu. Gall ffynonellau cyllid posibl gynnwys eich sefydliad lletyol neu'ch prifysgol gartref trwy gynlluniau megis Cyllid symudedd Taith neu Gynllun Turing.

Os caiff eich lleoliad tramor ei gymeradwyo, rhaid i chi ddilyn canllawiau eich prifysgol o ran teithio rhyngwladol, gan gynnwys cwblhau asesiad risg a sicrhau yswiriant teithio.

Cynghorir myfyrwyr rhyngwladol i geisio arweiniad gan eu tîm fisa myfyrwyr sefydliadol cyn teithio, a bydd angen hysbysu'r tîm hwnnw ymlaen llaw am unrhyw leoliad dramor er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion UKVI.

Yn olaf, os ydych yn bwriadu gweithio mewn gwlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, efallai y bydd angen fisa neu drwydded waith arnoch chi. Eich cyfrifoldeb chi yw trefnu hyn cyn teithio.

### Cyswllt a gwybodaeth bellach

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Sian Shepherd – Cydlynydd Ymchwil ar Waith
esrcrip@bangor.ac.uk